**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd Nos Fawrth 19 o Fedi 2017 am 7:00yh yn Ysgol Gynradd Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Meryl Green (Is-gadeirydd), Avril Jones, Cemlyn Jones, Haf Williams, Clifford Williams, Meirwen Lloyd, Llywelyn Williams, Goronwy Hughes, Phil Roberts.

**Cynrychiolwyr Ieuenctid:** Miriam Jones a Beca Llwyd

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Rhys Parry, Richard Robinson, Alan Pritchard, PhilRoberts.

**Hefyd yn Bresennol:** Y Rhingyll Danna Baxter (Heddlu Gogledd Cymru)
Arolygydd Owain Davies (Heddlu Gogledd Cymru)
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

**28.Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac yn enwedig i'r Rhingyll Danna Baxter a'r Arolygydd Owain Davies o Heddlu Gogledd Cymru. Diolchodd hefyd i'w Is-gadeirydd am gadeirio cyfarfod mis Awst yn ei absenoldeb.

**29. Derbyn Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**30. Datgan buddiant personol**

Rhain i'w nodi fel byddent yn codi wrth fynd drwy'r eitemau ar yr agenda.

Oherwydd presenoldeb yr Heddlu ac er arbed eu amser gwerthfawr penderfynwyd delio a materion yr heddlu yn gyntaf.

**41. I dderbyn adroddiad / cyflwyniad gan yr Heddlu Gogledd Cymru ar blismona yn yr ardal.**

Cafwyd cyflwyniad byr gan yr Arolygydd ar sefyllfa blismona cyffredinol yn yr ardal a sut mae effeithiau achosion o derfysgaeth yn y trefi yn effeithio ar Ogledd Cymru. Nodwyd mai hyd yma fod 31 o droseddau wedi eu cofnodi yn yr ardal gyda 27 am yr un cyfnod llynedd.  O'r rhain roedd nifer ohonynt yn achosion domestig.

Adroddwyd ymhellach fod ffigyrau Llanrug a'r ardal yn isel iawn i gymharu a llefydd eraill ac sydd yn esbonio efallai pam nad oes presenoldeb heddlu mora ml a huna yn Llanrug, oherwydd maent eu angen mewn llefydd eraill. Roedd y ffigyrau ym amlygu'r ffaith fod yr ofn o drosedd ddigwydd yn uwch na'r siawns iddo ddigwydd.

Adroddwyd fod problemau wedi bod ar ddechrau gwyliau Haf yr Ysgol gyda rhai o blant blwyddyn 9 ond fod huna i'w weld wedi distewi.

Pwysleisiodd yr Heddlu fod angen adrodd am y digwyddiadau wrthynt neu nad ydynt mewn sefyllfa i ddelio a hwy.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, cafodd yr aelodau y cyfle i holi am wahanol faterion. Gofynnwyd os fyddai bosib cael adroddiad yn nodi pa bryd mae'r heddlu wedi ymweld a'r ardal. Nodwyd byddai hyn yn creu haen arall o waith papur i swyddogion ac roedd yr Arolygydd yn awyddus i osgoi hyn. Eglurodd bod yn bosib creu adroddiad allan o system GPS y ffonia'u a byddwn yn edrych i fewn i allu creu adroddiadau o hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod ac fod y Cyngor yn gwerthfawrogi eu gwaith. Yn yr un modd, diolchwyd gan y Swyddogion am y cyfle i fynychu'r cyfarfod.

**Penderfynwyd:** Ar ol y cyfarfod i gysylltu a comisiynydd yr Heddlu i erfyn am fwy o gefnogaeth ar gyfer plismona'r ardal.

## 31. Cadarnhau Cofnodion mis Awst

Cadarnhawyd cofnodion mis Awst yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

## 32. Materion yn codi o'r cofnodion

### Gwaith ar wal y fynwent

Nodwyd nad oedd y gwaith ar wal y fynwent wedi ei wneud, er fod y Cyngor wedi derbyn pris gan gontractwr.

**Penderfynwyd:** Y Clerc gysylltu a contractwr arall i holi am bris i nweud y gwaith, oherwydd roedd yr aelodau'n teimlo dylai'r gwaith gael ei wneud cyn y gaeaf.

### Cyfleusterau i'r ifanc

Derbyniwyd adroddiad gan Miriam a Beca ar beth roeddynt wedi ymgymryd yn holi plant yn yr Ysgol ar beth fyddent yn ddymuno gael yn Llanrug. Nodwyd nad oedd rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn dymuno cael parc sglefrio, ond mai cae astro fyddai yn dderbyniol.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolchwyd i Beca a Miriam am ymgymryd a'r dasg ac o rannu barn yr ifanc.

Symud ymlaen a holiadur gymunedol yn y dyfodol i weld beth yw dymuniadau trigolion Llanrug, gan ddilyn yr un patrwm a Chwm y Glo, fel gellid edrych fewn i'r posibilrwydd o geisio am grant os bydd rhywbeth penodol yn dod allan o'r ymatebion i'r holiadur.

## 33. I dderbyn sylwadau ar lwybrau cyhoeddus

a) Adroddwyd fod y llwybr o Allt Goch i Bwlch angen ei dorri.
b) Adroddwyd fod y llwybr o Ffordd yr Orsaf i gae chwarae Nant y Glyn angen ei dorri
c) Adroddwyd ymhellach fod problem gyda cŵn ar rai o'r llwybrau
d) Nodwyd fod y bont droed wedi ei gosod i groesi'r ffos o Glanffynnon i'r llwybr troed.

**Penderfynwyd:**

Derbyn y wybodaeth ac fe benderfynwyd ar eitem (a & b) i ofyn i'n contractwr dorri llwybrau ymgymryd a'r gwaith.

Yn eitem (c) cyfeirio'r mater yn ôl at y Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd

Ar gyfer eitem (d) nodwyd y buasai'r bren yn gallu bod yn llithrig pan yn wlyb neu os y bydd wedi rhewi felly gofynnwyd wrth Menter Fachwen fynd i roi gorchudd ar y llawr.

**34. I dderbyn sylwadau ar faterion y fynwent ac i drefnu cyfarfod o Bwyllgor y Fynwent**

Nodwyd fod y mater o gyfraniad y Cyngor tuag at dorri gwair mynwent yr Eglwys yn Llanrug yn parhau. Nodwyd ymhellach nad oedd dogfennau wrth law yn cadarnhau'r trefniadau ac ar hyn o bryd roedd y Clerc yn anesmwyth i dalu arian oni bai fod y Cyngor yn cael cadarnhad o'r trefniadau a gyda cais gan yr Eglwys am y cyfraniad.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a'r Rheithor i geisio manylion ac i gysylltu ac un o'r wardeiniaid.

**35. I roi sylwadau / derbyn Polisi Iaith y Cyngor**

Nodwyd fod yr aelodau wedi cael copi ymlaen llaw o'r polisi drafft arfaethedig am sylwadau.

**Penderfynwyd:**

Yr aelodau i ddarllen drwyddo a dod yn ôl a sylwadau ar gyfer cyfarfod mis Hydref.

**36. I sefydlu gweithgor i greu holiadur cymunedol**

Nodwyd fod y Cyngor wedi penderfynu yn flaenorol fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ymgysylltu a'r gymuned, ei fod am greu holiadur gymunedol. Nodwyd ymhellach byddai o fantais cael gweithgor at ei gilydd i benderfynu ar pa ffurf o gwestiynau i'w gofyn ar yr holiadur.

**Penderfynwyd:** Etholwyd y canlynol i eistedd ar y gweithgor, Y Cynghorwyr Avril Jones, Berwyn Parry Jones, Cemlyn Jones, Martin Jones, ein cynrychiolwyr ieuenctid Beca Llwyd a Miriam Jones a'r Clerc. Oherwydd ei bod yn anodd

penderfynu ar ddyddiad yn ystod y cyfarfod, penderfynwyd ar i'r aelodau o'r gweithgor anfon eu dyddiadau rhydd i'r Clerc.

**37. Cais Cynllunio**

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C17/0813/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Tir ger Cil y Bont, Crawia, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554BS

**Dyddiad Cofrestru:** 29-Awst-2017

**Math o Gais:** Llawn Cynllunio

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Estyniad i safle carafanau teithiol awdurdodedig ac ail drefnu'r safle

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**38. I benderfynu os yw'r Cyngor yn cefnogi , gwrthwynebu neu angen rhoi sylw ar gais cynllunio arfaethedig Plas Tirion, Llanrug ac i ystyried sylwadau eu asiant. (Copi o'r cais ynghyd a'r dogfennau perthnasol eisoes wedi eu dosbarthu I'r aelodau).**

**Fe ddatganodd y Cynghorydd Haf Williams ddiddordeb yn hyn oherwydd ei bod yn byw gyfagos a'r datblygiad arfaethedig ac fod busnes maes carafanau gan y teulu wrth ochr y safle**

Nodwyd fod yr aelodau wedi cael copi o'r cynllun ymlaen llaw ac fod asiant ar ran yr ymgeiswyr wedi anfon gwybodaeth allan cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio am sylwadau'r Cyngor Cymuned.

**Penderfynwyd:** Ar y cyfan nid oedd gwrthwynebiad i'r cais, ond teimlai'r Cyngor nad oedd mewn sefyllfa i roi barn ffurfiol heb weld i cais yn llawn ger bron y Cyngor. Fodd bynnag, fe wnaethpwyd y sylwadau canlynol ac i'r Clerc eu hanfon at yr asiantwyr.

a) Gwnaethpwyd sylw ar amseroedd y trafnidiaeth h.y. cadw loriau i ffwrdd ar adegau pryd mae plant yn mynd i'r Ysgol ac yn dod gartref;
b) Sicrhau fod sŵn o'r safle yn cael ei gadw dan reolaeth, dim ond i ieir ond yr offer mecanyddol hefyd fel gwyntyllau echdynnu a peiriannau glanhau.
c) Sicrhau fod yr arogl yn cael ei reoli ac na fydd yn effeithio ar feysydd carafanau cyfagos.

**39. I dderbyn ac arwyddo adroddiad archwiliwr allanol BDO.**

Eglurwyd mai cwmni BDO sydd wedi cael y gytundeb gan y Cynulliad i gario allan archwiliad allanol i Gynghorau Cymuned a Thref ar draws Cymru. Adroddwyd fod

nifer o Gynghorau yn cael trafferth gyda'r cwmni yma, ac nodwyd fod BDO wedi dwym i'n sylw faterion bach ond eto teimlai'r Clerc eu bod yn anheg.

Yn gyntaf, roeddynt yn nodi nad oedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r ffurflen archwilio cyn eu anfon i BDO cyn 30ain o Fehefin 2017. Mae hyn eisoes wedi ei egluro iddynt na chafwyd y ffurflen archwilio yn ôl gan yr archwiliwr mewnol tan fin nos, 29ain o Fehefin felly byddai wedi bod yn amhosib i alw cyfarfod cyn y dyddiad o 30ain o Fehefin. Roedd hyn eisoes wedi ei egluro wrthynt ac fod y Cyngor yn ei gyfarfod 20fed o Fehefin wedi cael cadarnhad o hyn ac wedi awdurdodi'r Clerc a'r Cadeirydd arwyddo'r ffurflen archwilio cyn gynted a phosib.

Yn ail, nodwyd gan BDO nad oedd y Cyngor wedi arddangos copi o ffurflen llynedd ar ei wefan, eto mae hyn yn anghywir ac fe ail anfonwyd i linc at BDO.

Yn drydydd, maent yn cyfeirio nad oes gan y Cyngor gofrestr o'i asedau. Eto mae hyn yn anghywir ac fe ail anfonwyd y gofrestr iddynt. Hefyd mae gwahaniaethau yn yr adroddiad y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad.

**40. I ethol aelodau ar Bwyllgor Hamdden ac i bennu dyddiad ac amser ar ei gyfarfod nesaf.**

Nodwyd yn ei gyfarfod blynyddol, etholwyd y Cynghorwyr Meryl Green a Meirwen Lloyd ar y Pwyllgor Hamdden a penderfynwyd ethol aelodau eraill pan fyddai pob sedd wedi ei llenwi. Eglurwyd fod cyfrifoldebau'r pwyllgor yma yn amrywio o ymdrin a'r meysydd chwarae, yr awyrgylch, tacluso pentrefi a trefnu'r coed Nadolig ar gyfer Llanrug a Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Etholwyd y Cynghorwyr Cemlyn Jones, Haf Williams, Llywelyn Williams a Clifford Williams i eistedd ar y pwyllgor ynghyd a'r Cadeirydd a'r Clerc.

Fe gyfetholwyd y Cynghorydd Clifford Williams ar bwyllgor y fynwent hefyd.

**41. I dderbyn adroddiad / cyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru ar blismona yn yr ardal.**

Gwêl uchod – mae'r eitem yma eisoes wedi ei gofnodi

**42. I benderfynu ar pa gamau i gymryd gyda'r Gwasanaeth Tân yn erbyn y gwasanaeth am beidio ymateb i'n cais am wybodaeth.**

Adroddwyd y Clerc wedi cysylltu a'r Gwasanaeth Tan ar lafar ac yn ysgrifenedig i holi am enw a cyfeiriad y bachgen bu rhaid i'w dorri allan o siglen babanod ar gae Nant y Glyn. Adroddwyd nad oedd ymateb wedi dod hyd yma.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a'r Gwasanaeth Tan a gwneud cwyn ffurfiol am ddiffyg ymateb.

**43. I wneud penderfyniad ar goed sydd wedi ei difrodi ar gaeau chwarae Pwll Moelyn a Nant y Glyn**

Bydd yr aelodau ym cofio am y difrodi a wnaethpwyd ar y meysydd chwarae ar ddechrau gwyliau'r Haf. Ymysg y difrod a achoswyd roedd dwy goeden gyda'r rhisgl y goeden wedi ei naddu i ffwrdd. Yn ôl yr arbenigwyr, pan mae hyn yn digwydd mae posibilrwydd cryf bydd y goeden yn mawr. Nodwyd fod pris wedi ei dderbyn gan arbenigwr coed am wneud y gwaith.

adroddwyd fod cwyn yn dod i law am goeden sydd ar gae Nant y Glyn yn tyfu drosodd i'r cae chwarae ac fod caniatâd wedi ei dderbyn gan berchennog y tir i'r Cyngor ei thorri lawr yn gyfan gwbl.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i geisio pris arall am dorri'r goeden ar gae Nant y Glyn, Pwll Moelyn a'r goeden sydd yn tyfu drosodd i gae chwarae Nant y Glyn.

Ar ddiwedd y cyfarfod, llongyfarchwyd y Clerc ar ei lwyddiant diweddar yn cwblhau cwrs CiLCA, sydd yn gwrs proffesiynol cydnabyddedig ar gyfer Clercod Cynghorau Cymuned a Thref, a nodwyd mai ef oedd y cyntaf i wneud y cwrs yma drwy gyfrwng y Gymraeg.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:20

Arwyddwyd :

Cadeirydd: Dyddiad: